CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
1 Mai 2019, CANOLFAN PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL: Cyng D I Roberts, E Williams, N Jones, D Gwyn, A Mummery, O Evans, M Jones (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng S Hughes, R Williams (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Cyng E Williams - FPL/2019/11 Gweirglodd Bach, Penmynydd. Cyng D I Roberts (rhodd Canolfan Penmynydd). Cyng A W Mummery (rhodd Canolfan Penmynydd).
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 03.04.19. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng D Gwyn yn cynnig a Cyng N Jones yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Datblygu'r maes chwarae** - Mae Cyng N Jones wedi cael pris am postyn newydd/giat - £75. Mae'r gwaith wedi cael ei wneud. Cytunwyd i dalu.
4.2	**Ymateb Llywodraeth Cymru** - Cynhaliwyd cyfarfod 17.04.19 yn y Ganolfan Penmynydd - gweler nodiadau y Clerc.
4.3	**Lon Bryn Ffynnon** - Nid yw Cyng A Mummery wedi derbyn ymateb gan y Cyngor Sir a bydd yn gwneud cwyn
4.4	**Gor-yrru a materion Penmynydd** - Ymateb y Cyngor Sir: **Ffordd yn arwain o'r B5420 i'r Eglwys -** Cadarnhaf fod y gwaith clytio ar hyd y B5420 wedi cychwyn wythnos ddiwethaf a disgwylir bydd wedi cael ei gwblhau yn ystod yr wythnos hon. Yn ogystal, rydym hefyd yn bwriadu arwisgo (surface dress) llecyn o'r B5420 rhwng Llangefni a Porthaethwy yn ystod yr haf. **Mynediad newydd wedi ei greu gan Dalar Deg** Gan fod y lon cyfagos yn ffordd ddi-dosbarth ('unclassified'), nid oes angen caniatad cynllunio er mwyn creu myneda newydd i'r lon. Mae hyn wedi ei amlinellu yn 'The Town and Country Planning (General Permitted Development) Order 1995, Schedule 2 – Part 2, Class B". Gweler gopi o'r geiriad isod:- "*Class B – means of access to a highway* Permitted developmentB. *The formation, laying out and construction of a means of access to a highway which is not a trunk road or a classified road, where that access is required in connection with development permitted by any Class in this Schedule (other than by Class A of this Part).*"Yn yr achos yma, roedd yr ymgeisydd wedi dylunio'r fynedfa i fodlonrwydd yr Awdurdod Briffyrdd ar ôl i arolwg traffic cael ei wneud yno i ddarganfod be ddylai y llain weledded fod o'r fynedfa arfaethedig. Roedd yr ymgesidd angen cytundeb Adran 184 o Ddeddf Briffyrdd 1980 er mwyn croesi ac amddiffyn ymyl gwair y ffordd o flaen y fynedfa.
	Llofnod **Cadeirydd** **05.06.19**

	B5420 Troad am Star a Chyffordd Afallon Mae yna ddrych gwelededdd ar y ddwy gyffordd dan sylw - gweler y lluniau "google earth" isod. Nid oes unrhyw ordyfiant i'w dorri gan mai cyfrifoldeb y Cyngor yw torri gor-dyfiant sydd yn ymestyn dros ac yn amharu ar y Briffiordd. Cyfrifoldeb y tir-feddiannwr yw uchder y tyfiant. Yr ateb delfrydol fyddai cynllun gwelliant ffordd i ddatrys y broblem gwelededdd unwaith ac am byth, ond oherwydd diffyg cyllideb ni fydd unrhyw welliannau i'r ffordd yn bosib yn y dyfodol agos.
4.5	**BDO Archwilwyr Allanol.** Disgwyl ymateb gan Swyddfa Archwilio Cymru.
4.6	**Llwybr troad Bryngof** (cwyn am gyflwr y llwybyr sydd yn arwain at y Bont) - Cynigodd Cyng D Gwyn cerdded y llwybr a dod yn ol at y Clerc
4.7	**MANDAD y banc** - Bydd y Clerc yn trefnu i tynnu enw Alaw Evans ac ychwanegu enw Cyng E Williams
4.8	**Bws yn parcio wrth ymyl troad Pentre Berw** - mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.9	**Sedd wâg** - Mae'r Clerc wedi trefnu i'r Cyngor Sir paratoi hysbyseb
4.10	**Llwybr Tyddyn Felin (dwr ar y llwybr)** - mae'r gwaith wedi'i wneud
4.11	**Twll yn y lôn wrth ymyl y lle glo** - wedi'i wneud
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MôN**
	Priffyrdd
5.1	Materion Penmynydd - gweler 4.4
	Pwyllgor Safonnau
5.2	Trafodwyd Adroddiad y Pwyllgor Safonnau ar Adolygiad y Cofrestrau - mae pob aelod wedi derbyn copi. Mae pob aelod yn datgan diddordeb ar dechrau pob cyfarfod os bydd angen
	Cynllunio
5.3	FPL/2019/11 Gweirglodd Bach, Penmynydd. Dim sylwadau
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
	Dim
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
7.1	Playquest £3450 (swings newydd)
7.2	Cyngor Ynys Môn £93.80 (rent y maes chwarae)
7.3	Canolfan Penmynydd £500 rhodd at gegin newydd
7.4	G Hughes £75 postyn/giat y maes chwarae
7.5	Zurich Municipal £592.05 - yswiriant blynyddol
	Llofnod **Cadeirydd** **05.06.19**

8	**MATERION ERAILL**
8.1	Torri coed Penmynydd (Scottish Power) - Cynigodd Cyng E Williams paratoi llythyr at Llyr Gruffydd AC ar rhan y Clerc
8.2	Camerau cylch-cyfyng ar yr A55 - Cynigodd Cyng E Williams paratoi llythyr at Arfon Jones (Comisiynydd yr Heddlu) ar rhan y Clerc
9	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
	Dim
	Llofnod **Cadeirydd** **05.06.19**